Comisiynydd
Plant Cymru

Children's
Commissioner
for Wales

At: Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ac aelodau'r Pwyllgor

**Trwy ebost yn unig**

21 Medi 2020

Annwyl gydweithiwr,

Rwy'n ysgrifennu i'ch rhagrybuddio ynghylch fy mhenderfyniad i ddefnyddio'm pwerau statudol i adolygu camau gweithredu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dau fater polisi addysg: dewis addysgu gartref a rheoleiddio ysgolion annibynnol.

Wrth wneud hynny, fe fyddaf yn defnyddio pwearu statudol y Comisiynydd Plant i adolygu gweithredu gweithrediadau gan Weinidogion Cymru, yn unol â Rhan 72B o Ddeddf Safonnau Gofal 2000.

Rydym wedi penderfynu cynnal Adolygiad yn dilyn cadarnhad ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg bod y Llywodraeth wedi penderfynu peidio â symud ymlaen i gyflwyno canllawiau a rheoliadau statudol mewn perthynas â'r ddau faes yma yn ystod y tymor Senedd hwn.

Er fy mod i'n deall ac yn gwerthfawrogi bod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar waith y Llywodraeth ar draws pob adran a swyddogaeth, mae dyletswydd arnaf fi i ddiogelu hawliau a lles plant a phobl ifanc. Bydd elfennau o'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar benderfyniadau a chamau gweithredu cyn y pandemig.

Nid wyf yn disgwyl, nac yn dymuno, i'r adolygiad hwn lesteirio unrhyw waith polisi sy'n parhau mewn adrannau perthnasol o'r Llywodraeth.

Byddwch chi'n gwybod fy mod i wedi cymryd camau sylweddol dros flynyddoedd lawer i weithio gyda'r Llywodraeth i symud y materion hyn ymlaen, ond mae rhai o'n pryderon sylfaenol yn parhau. Y nod yw llunio argymhellion ynghylch camau nesaf y dylai'r Llywodraeth hon neu Lywodraeth Cymru yn y dyfodol eu cymryd i ddiogelu hawliau plant sy'n cael eu haddysgu gartref neu mewn ysgolion annibynnol.

Wrth adolygu, byddwn ni'n canolbwyntio ar swyddogaethau sy'n ymwneud â diogelu ac addysg, er y gall materion ehangach cysylltiedig â llywodraethu, gwneud penderfyniadau, llesiant plant a hawliau plant godi hefyd.

Dwi wedi gwneud hyn yn glir i'r Prif Weinidog nad yw'n fwriad gen i daro bau neu gam-farnu unrhyw swyddog neu Weinidog yn bersonol am benderfyniadau neu weithredoedd. Yn hytrach, bwriad yr adolygiad yw i

edrych ar effeithiolrwydd Llywodraeth Cymru i ymgymryd â'u swyddogaethau mewn dau ardal o faes polisi addysg yn benodol. Drwy wneud hyn, mae'n debygol y fydd yna sylwebaeth ar sut mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i gyflawni ei rhwymedigaeth gyfreithiol ar hawliau dynol plant.

Byddaf yn ymdrechu i sicrhau eich bod chi'n cael gwybodaeth yn gyson am unrhyw ddatblygiadau. Yn y cyfamser, bydd tudalen wedi'i neilltuo ar gyfer hyn yn mynd yn fyw ar ein gwefan yfory, a bydd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad. Bydd yn cynnwys gwybodaeth benodol ar gyfer pobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gartref neu sydd mewn ysgol annibynnol yng Nghymru.

Byddwn hefyd yn cysylltu â chi os bydd angen i chi wneud cyfraniad i'r adolygiad statudol hwn.

Yn y cyfamser, os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau am y gwaith hwn, mae croeso i chi gysylltu â'm Pennaeth Polisi, Rachel Thomas, sy'n rheolwr prosiect ar y gwaith hwn ar fy rhan. Dyma ei manylion cyswllt: rachel.thomas@complantcymru.org.uk / 01792 765600

Gyda diolch,

Sally

Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales